## PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

## ADRODDIAD GWEINIDOG Y CYNULLIAD I’R PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES AR 12 RHAGFYR 2001

Mae’r adroddiad hwn yn diweddaru’r Pwyllgor ar y materion penodol yr oedd yn dymuno cael gwybodaeth yn eu cylch ers fy adroddiad blaenorol dyddiedig 14 Tachwedd a materion eraill o ddiddordeb cyfredol. Mae **Atodiad A** yn nodi fy mhrif ymrwymiadau ers yr adroddiad diwethaf.

### 1. Cynlluniau ar gyfer llefydd hyfforddi athrawon cynradd a’r effaith ar sefydliadau hyfforddi athrawon yng Nghymru

Mae’r targedau a osodir bob blwyddyn ar gyfer recriwtio i hyfforddiant cychwynnol athrawon yn seiliedig ar amcanestyniadau o’r nifer tebygol o athrawon cymwys y bydd eu hangen yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn seiliedig ar y model cyflenwad a galw a ddefnyddir gan yr Adran Addysg a Sgiliau.

Defnyddir y modelu i benderfynu’r nifer o athrawon newydd gymhwyso sydd eu hangen i gwblhau cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon er mwyn cydbwyso cyflenwad a galw mewn ysgolion meithrin, cynradd a chyfun a gynhelir yng Nghymru a Lloegr. Ceir targedau ar gyfer recriwtio i hyfforddiant cychwynnol athrawon trwy ffactoreiddio gwybodaeth am niferoedd presennol athrawon, cyfraddau’r athrawon sy’n gadael y proffesiwn (i ymddeol ac am resymau eraill), niferoedd disgyblion yn y dyfodol, ac ati. Mae tybiaethau am y llif i mewn i ddysgu o hyfforddiant cychwynnol athrawon yn cynnwys gwastraff yn ystod y cwrs, y cydbwysedd rhwng cyrsiau o wahanol hydoedd, a’r cyfraddau mynediad o hyfforddiant i mewn i ddysgu yn y sector a gynhelir; mae tybiaethau pellach yn caniatáu am ddychweliad athrawon cymwys nad ydynt ar hyn o bryd mewn swydd, i ddysgu a gynhelir.

Gallai rhai ffactorau y mae angen eu hystyried fel rhan o’r ymarfer hwn ddangos y byddai angen llai o fyfyrwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon cynradd yn y dyfodol. Yn arbennig, bydd newidiadau demograffaidd yn arwain at ostyngiad yn niferoedd y disgyblion cynradd. Wrth reswm, mae yna ffactorau eraill; ac wrth ystyried y nifer y bwriedir ei dderbyn, rhaid ystyried yr effaith ar sefydliadau hyfforddi athrawon yng Nghymru.

Er mwyn cael gwell syniad o’r hyn y gallai rhai senarios yn ymwneud â gostyngiadau ei olygu yn ymarferol, gofynnwyd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ymgymryd â gwaith i ddangos ymarferoldeb ac effeithiau’r gostyngiadau posibl fel y gellid rhoi ystyriaeth briodol i’r rhain ochr yn ochr â ffactorau eraill pan fydd Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol yn ysytyried y nifer y bwriedir ei dderbyn. Y nod oedd darparu cronfa wybodaeth, i’w hystyried wrth wneud

penderfyniadau ar y nifer y bwriedir ei dderbyn yn y dyfodol.

Gofynnwyd i'r Cyngor drafod y gwaith hwn gyda'r sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon a chyrff priodol eraill fel eu bod hwythau'n cael eu cynnwys. Cofnodwyd safbwyntiau'r cyrff hynny gan y Cyngor a'u rhoi i ni, a rhoddir ystyriaeth iddynt wrth ystyried y wybodaeth.

Newydd dderbyn y wybodaeth ar y gwaith hwn gan y Cyngor ydym, ac mae angen ei hastudio a'i hystyried ochr yn ochr â gwybodaeth arall. Mae'n rhy gynnar i ddweud ar hyn o bryd y bydd targedau yn cael eu cynnal fel llynedd, neu eu newid - p'un ai eu codi neu eu gostwng. Gobeithiwn fedru gwneud datganiad yn fuan.

**2. Arolwg Recriwtio CACC**

Cyhoeddodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ganlyniadau ei arolwg o ricriwtio athrawon yng Ngymru yr wythnos ddiwethaf. Cafwyd ymateb i'r arolwg gan 74% o ysgolion – er na wyddom pa gyfran o'r holl athrawon yng Nghymru mae hyn yn ei gynrychioli. Roedd yr arolwg yn holi ysgolion uwchradd yngl•n â cheisiadau am swyddi Cyfnodau Allweddol 3, 4 ac uwch mewn pynciau lle roedd tystiolaeth anecdotaidd bod anawsterau recriwtio (Mathemateg, Saesneg, Cemeg, Ieithoedd Tramor Modern, Ffiseg, Addysg Grefyddol a Chymraeg fel ail iaith). Darganfu fod cyfartaledd nifer yr ymgeiswyr ar gyfer swyddi yn 6.5. Ystyriwyd hyn yn isel. O ran Ffiseg a Chymraeg, cyfartaledd nifer yr ymgeiswyr oedd 3.8 a 4.5 yn ôl eu trefn.

Roedd sylwadau a wnaed gan brifathrawon yn awgrymu bod llai o ymgeiswyr ar gyfer swyddi nawr nag y bu a bod safon yr ymgeiswyr yn dirywio. Roedd y sefyllfa i'w gweld yn waeth yn gyffredinol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Gwnaed sylwadau yn yr arolwg ar nifer yr athrawon yn dysgu Cyfnod Allweddol 4 ac uwch yn y pynciau dan sylw sydd â gradd neu gymhwyster cyfatebol yn y pwnc perthnasol. Ar gyfartaledd, roedd gan 77% o'r athrawon radd neu gymhwyster cyfatebol – yn amrywio o 69% (AG) i 93% (Ieithoedd Tramor Modern).

Croesawaf waith y Cyngor. Mae'n ychwanegiad defnyddiol at y wybodaeth sydd ar gael ar recriwtio. Yn sicr, byddwn eisiau gweithio gyda'r Cyngor, fel yr awgrymant, a gyda chyrff priodol eraill yn cynnwys darparwyr hyfforddiant athrawon i archwilio goblygiadau'r arolwg. Mae'r Cyngor wedi tynnu ein sylw at yr angen am wybodaeth bellach i greu darlun gwell o recriwtio a chadw athrawon a bydd swyddogion yn trafod hyn gyda'r Cyngor.

Er y gall fod rhai anawsterau wrth ddenu amrywiaeth o athrawon â'r cymwysterau priodol ar gyfer rhai swyddi, at ei gilydd nid oes prinder athrawon yn y dosbarth. Fis Ionawr eleni, roedd y gyfradd swyddi gweigion yn 0.4% (dim ond 96 o swyddi gweigion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Cymru). Mae papur ar wahân ar yr Agenda ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor y

prynhawn yma yn crynhoi'r cymhellion sydd ar gael i annog pobl i gychwyn gyrfa mewn dysgu, ac yn enwedig i ddysgu yn y meysydd lle mae prinder.

**3. Cysylltiad y Sector Preifat â Darpariaeth Gwasanaethau Addysg**

Mae'r holl sefydliadau sy'n gysylltiedg â darparu addysg gyhoeddus yn prynu amrywiaeth eang o nwyddau a gwasanaethau o'r sector preifat wrth gynnal eu darpariaeth i'r gwasanaeth cyhoeddus. Yr her bob amser yw gwella'r broses gaffael, sefydlu'r perthnasoedd mwyaf effeithiol gyda chyflenwyr a chael y gwerth gorau am arian.

Un o themâu Cymru: Gwlad sy'n Dysgu yw'r ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae'r sector preifat eisoes yn darparu llywodraethwyr ysgolion, yn ymgymryd â chynlluniau cyfnewid athrawon a mentora ac yn yn ymwneud yn helaeth ag addysg sy'n gysylltiedig â menter a gwaith. Gobeithiaf y bydd cydweithio â'r sector preifat yn datblygu mewn ffyrdd newydd fel rhan o'r pwyslais newydd ar y gymuned.

Buaswn yn gobeithio y bydd Cydffederasiwn Diwydiannau Prydain a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn parhau i drafod y lle sydd i aelodau CDP gyfrannu at ddatblygu ysgolion fel canolbwynt ar gyfer darparu gwasanaethau cymunedol ac addysg gydol oes. Mae nifer o awdurdodau yn mynd ar drywydd datblygiadau o'r fath a dyma'r adeg briodol ar gyfer trafodaethau rhwng awdurdodau lleol a'r sectorau preifat a gwirfoddol.

Yn fy nhriniaeth o fuddsoddiad sector preifat mewn addysg yng Nghymru, yr wyf yn gwahaniaethu rhwng partneriaeth gyhoeddus/breifat – yr wyf yn ei gwerthfawrogi ac yn credu y gellir ei datblygu yn fuddiol i wella safonau – a thriniaeth a fyddai'n cynnwys y sector preifat mewn rhedeg ysgolion a sefydliadau addysgol eraill yng Nghymru. Yr wyf yn awyddus i ddatblygu partneriaethau. Mewn cyferbyniad, mae'r darpariaethau yn y Mesur Addysg sy'n ymwneud ag academïau (cymal 62) ac ysgolion ychwanegol (cymalau 66 a 67) ac sy'n rhagweld y sector preifat ac eraill yn gwneud cynigion ar gyfer academïau ac ysgolion, yn gymalau ar gyfer Lloegr yn unig.

**4. Lansio'r Rhaglen CCN ar gyfer AG a Chwaraeon Ysgolion**

Ynghyd â'r Gweinidog Dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg, roeddwn yn falch i fod yn rhan o lansiad y rhaglen CCN (Cronfa Cyfleoedd Newydd) ar gyfer AG a chwaraeon ysgolion yng Nghymru a gynhaliwyd ar 19eg Tachwedd.

Dros y pedair blynedd nesaf bydd y Rhaglen CCN yng Nghymru – gwerth **£48.75 miliwn** – yn cefnogi gwaith adnewyddu cyfleusterau chwaraeon dan do ac awyr agored ac adeiladu rhai newydd i'w defnyddio gan ysgolion a'r gymuned ehangach. Datblygwyd dull CCN o drin y

Rhaglen yn dilyn ymgynghori eang ac mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol ac eraill i sicrhau ei bod yn hollol addas i gwrdd ag anghenion Cymru. Bydd CCN yn parhau i weithio mewn partneriaeth glòs â Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, awdurdodau lleol, Cyngor Chwaraeon Cymru ac Estyn i sicrhau y darperir y Rhaglen drwy brojectau sy'n ategu ac yn gwella cynlluniau lleol.

Bydd y Rhaglen yn chwarae rhan allweddol mewn gwireddu amcanion Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer AG a chwaraeon ysgolion, fel y nodir yn Cymru: Gwlad sy’n Dysgu, trwy hyrwyddo AG a chwaraeon o fewn cwricwlwm yr ysgol a thrwy weithgareddau allgyrsiol. Mae hefyd yn ategu gweithrediad y cynllun Cymundau'n Gyntaf trwy gefnogi mesurau sy'n mynd i’r afael ag anfantais cymdeithasol, yn cyfrannu at ein polisïau i gefnogi pobl ifanc a draethir yn "Ymestyn Hawliau" a "Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth", a bydd yn cefnogi ac yn ategu'r argymhellion a geir yn nogfen y Tasglu AG a Chwaraeon Ysgolion, "Cynllun Gweithredu yng Nghymru".

**Dogfen Tasglu AG a Chwaraeon Ysgolion "Cynllun Gweithredu yng Nghymru"**

Cyhoeddwyd Dogfen Gweithlu AG a Chwaraeon Ysgolion "Cynllun Gweithredu yng Nghymru" ym Mehefin 2001 ac mae'n sefydlu llwyfan ar gyfer gwella safonau mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgolion i holl bobl ifanc Cymru.

Croesawaf yr adroddiad ac rwyf wedi sicrhau bod adnoddau ar gael i Gyngor Chwaraeon Cymru (CChC) i hyrwyddo nifer o'r argymhellion allweddol.

Bydd y gwaith yma yn cael ei arwain gan Reolwr Cenedlaethol Datblygu AG a Chwaraeon Ysgolion a benodir gan GChC. Bydd y Rheolwr Datblygu yn gyfrifol am ragbrofi nifer o Ganolfannau Datblygu Cwricwlwm lleol (CDCau) a fydd yn darparu mainc arbrofi i roi sylw i'r argymhellion yn adroddiad y Tasglu.

Bydd pob CDC yn dwyn ynghyd nifer bach o ysgolion a fydd yn gweithio gyda phartneriaid lleol megis colegau, darparwyr addysg uwch a chanolfannau hamdden. Amcan allweddol CDCau fydd canfod, cryfhau a datblygu arferion da mewn AG a chwaraeon ysgolion - trwy ddatblygu dulliau arloesol tuag at ddarparu'r cwricwlwm, defnyddio cyfleusterau (yn cynnwys ar ôl oriau) a datblygu staff.

Bydd y dulliau a ddefnyddir a'r gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu ag eraill i gyfrannu at godi safonau ar draws Cymru.

Y nod yw sefydlu hyd at 16 CDC peilot ar draws Cymru erbyn diwedd 2002-03; bydd rhai o'r rhain mewn ardaloedd difreintiedig sy'n gysylltiedig â'r Fenter Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Mae gwaith eisoes mewn llaw i sefydlu nifer o CDCau a bydd 3 yn weithredol cyn Ebrill 2002.

5. **Lleihau maint dosbarthiadau**

Cyhoeddwyd canlyniadau cyfrifiad maint dosbarthiadau cynradd Medi ar 21 Tachwedd fel Datganiad Ystadegol Cyntaf. Ar ddyddiad y cyfrif (25 Medi) nid oedd ond 75 o ddosbarthiadau babanod yng Nghymru â dros 30 o ddisgyblion. 31 o ddisgyblion yn unig oedd yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau hynny ac roedd y disgyblion ychwanegol hynny wedi cael eu derbyn gan mwyaf am eu bod wedi symud i'r ardal ar ôl y drefn dderbyn arferol. Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i ddosbarthiadau fynd dros 30 o dan y fath amgylchiadau, ar yr amod y dygir hwy yn ôl o fewn y terfyn erbyn y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae copi o'r datganiad ystadegol llawn, sy'n rhoi dadansoddiad manwl o'r canlyniadau a'r eithriadau a ganiateir, yn ogystal â'r Datganiad i'r Wasg a ryddhawyd gennyf yr un pryd, i'w weld yn/ar:

http://www.wales.gov.uk/newsite.dbs?37E752F2000942E000000A2E00000000+current+3BFB821400071F5B0000664D00000000

Roeddwn yn falch i fedru cyhoeddi bod gweithredu dilynol eisoes wedi digwydd yn yr 20 dosbarth oedd i bob golwg wedi torri'r terfyn statudol. Roedd 16 ohonynt eisoes wedi'u datrys ac mae dau arall wedi'u gostwng i 30 neu lai ers hynny.

Mae'r gwelliant ym maint dosbarthiadau cynradd hefyd yn galonogol. Llynedd, roedd 29% o ddisgyblion cynradd mewn dosbarthiadau o dros 30 ac eleni disgynnodd y ffigur i 22%. Disgwyliwn i'r awdurdodau ddefnyddio'r cyllid ychwanegol y byddwn yn ei ddarparu yn 2002-03 i barhau â'r gostyngiad cyflymach yma ym maint dosbarthiadau cynradd ac i roi blaenoriaeth i gael gwared ar ddosbarthiadau o dros 35. Erys y nod o gael gwared ar bob dosbarth cynradd mawr erbyn 2003/4.

**6. Partneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru**

Yn ystod y drafodaeth ar y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 8 Tachwedd, cytunais i wneud diagram i helpu'r pwyllgor i ddeall rhai o'r perthnasoedd yn yr agenda sgiliau. Mae hwn yn faes cymhleth ac rydym wedi gwneud 4 diagram yn dangos gwahanol agweddau. Mae'r rhain ynglwm yn Atodiad B.

**7. Cyfle Cyfartal**

Mae'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi ysgrifennu at bob aelod o'r Cabinet yn awgrymu y gallai'r Pwyllgorau ystyried sut y gellir hyrwyddo cyfle cyfartal fel rhan o'u rhaglen waith megis yn yr archwiliad o Gyrff a Noddir gan y Cynulliad ac mewn adolygiadau polisi. Gweler copi o'i llythyr yn Atodiad C.

Ymunais â lansiad ymgyrch y Comisiwn Cyfle Cyfartal i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw – "*Beth Sy'n Eich Rhwystro*?" ar 3ydd Rhagfyr. Bydd pecynnau ymgyrchu yn cynnwys posteri, cardiau post, canfyddiadau ymchwil ac awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau i helpu athrawon a chynghorwyr gyrfaoedd i fynd i'r afael â stereotepio ar sail rhyw yn cael eu hanfon i bob ysgol uwchradd yng Nghymru. Mae ymgyrch y CCC i herio stereoteipio ar sail rhyw ac ehangu dewisiadau yn debygol o fod yn bwysig wrth godi ymwybyddiaeth myfyrwyr o'r posibiliadau sydd yn agored iddynt. Bydd yn gymorth i ddymchwel rhwystrau disgwyliadau cul neu syniadau ystrydebol diysgog. Yr wyf am weld mwy o blymeriaid benywaidd a bydwragedd gwrywaidd yn cymryd eu priod le yn y gweithle. Mae manylion pellach am yr ymgyrch a chopïau o'r pecyn adnoddau ar gael o CCC Cymru ar 029 20 343552 neu ebost sue.dye@eoc.org.uk

**Tasglu Cyflog Cyfartal y Comisiwn Cyfle Cyfartal**

Yr ydym yn gweithredu i oresgyn y rhwystrau i gyflog cyfartal a nodwyd yn yr adroddiad "Cyflog Teg" trwy ein cefnogaeth i Chwarae Teg a'r Fenter Cydbwysedd Gwaith-Bywyd yng Nghymru.

Yr ydym yn darparu £100,000 o gyllid craidd i Chwarae Teg yn 2001-2002. Nod Chwarae Teg yw cynyddu cyfranogiad a chyrhaeddiad menywod yn y gweithlu yng Nghymru. Ei amcanion yw i:

- hyrwyddo cyfranogiad menywod yn y farchnad waith mewn perthynas â'u gweithgaredd, sgiliau a photensial rheoli trwy fynd i'r afael yn strategol â'r rhwystrau y mae menywod yn eu hwynebu;

- codi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr, undebau llafur, darparwyr hyfforddiant, llywodraeth leol, Y Cynulliad Cenedlaethol, Y Comisiwn Ewropeaidd ac asiantaethau datblygu economaidd allweddol o'r "achos busnes" dros gynyddu cyfranogiad menywod yn y farchnad waith;

- hyrwyddo arferion da a gwelliannau wrth ddarparu arferion cyflogaeth sy'n ystyried lles y teulu, gofal plant, gofal dibynyddion eraill, hyfforddiant hyblyg a chyfleoedd gwaith, a gwasanaethau cynnal busnes.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cyfrannu yn weithredol mewn nifer o fentrau cydbwysedd gwaith-bywyd fel rhan o ymgyrch y DU, a lansiwyd ym Mawrth 2000 a thrwy ddatblygiadau gyda'r WDA, Chwarae Teg a Dysgu ac Adysgu Cymru. Mae i hyn dair elfen fras:-

- parhau'r gwaith gyda'r Mentrau Bach a Chanolig (MBC) trwy'r Gronfa Her bresennol (50k ar gyfer 2001/20) yn ogystal â pheth gwaith datblygu;

- datblygu projectau peilot mewn dau neu dri Awdurdod Lleol, dwy neu dair coleg/prifysgol ac un neu ddwy CCNC er mwyn datblygu cynlluniau Cydbwysedd Gwaith-Bywyd;

- datblygu gwefan Cydbwysedd Gwaith-Bywyd fel adnodd i holl gyflogwyr a gweithwyr Cymru.

## 8. Dysgu Gydol Oes yn Ewrop

Cytunodd Prif Weinidog Cymru a minnau yn ddiweddar y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol ymuno â'r Gymdeithas Ewropeaidd o Awdurdodau Lleol Rhanbarthol ar gyfer Dysgu Gydol Oes (CEALlRhDGO). Sefydlwyd y Gymdeithas hon yn ddiweddar, gyda chefnogaeth Y Comisiwn Ewropeaidd, i ddarparu canolbwynt i lywodraethau rhanbarthol Ewrop i gydweithio a rhannu syniadau ym maes dysgu gydol oes.

Rhoddwyd Cymru yn y rheng flaen yn natblygiadau polisi yn y maes yma gan ein gwaith yn moderneiddio strwythurau dysgu ôl-16 a'n strategaethau i ddatblygu Cymru fel 'Gwlad sy'n Dysgu', ac mae'n bosibl fod gennym lawer i'w gynnig i'n partneriaid Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae gennym hefyd y potensial i fod ar ein hennill o ymaelodi â CEALlRhDGO. Disgwyliaf i CEALlRhDGO ddarparu cyfrwng defnyddiol ar gyfer meincnodi gweithgareddau dysgu gydol oes Cymru gyda llywodraethau rhanbarthol eraill yn Ewrop. Bydd hefyd yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol ac asiantaethau allweddol yng Nghymru, megis Dysgu ac Addysgu Cymru, i ddylanwadu ac elwa ar ddatblygiadau dysgu gydol oes ar draws Ewrop ac i chwarae rhan weithredol mewn projectau datblygiadol ac wrth feithrin mentrau newydd.

## 9. Papur Gwyn Ewrop ar Ieuenctid

Lansiwyd y papur gwyn Ewropaidd hir-ddisgwyliedig ar Ieuenctid, ac mae'n cynnwys esiampl o arfer da o Gymru. Roeddwn yn bresennol yng Nghyngor y Gweinidogion Dros Ieuenctid ym Mrwsel ar Dachwedd 29ain pan groesawyd y Papur Gwyn hwn gan yr holl aelod-wladwriaethau. Lansiwyd y Papur Gwyn yng Nghymru ar Ragfyr 6ed yn Ysgol Gyfun Rhisga. Rydym mewn sefyllfa dda yng Nghymru i hyrwyddo mentrau Ieuenctid trwy Ymestyn Hawliau ac mae'r Cyfarwyddiadau a Chanllawiau sydd ger eich bron ar yr agenda heddiw, a'r Papur Gwyn, yn cefnogi'r blaenoriaethau yr ydym eisoes wedi eu nodi. Fe ddylai ehangu cyfleoedd i'n pobl ifanc trwy Ewrop.

## 10. Mesur Addysg

Yn dilyn ein trafodaeth ddiweddar ar y Mesur Addysg, teimlais y byddai'n ddefnyddiol i chi gael y dadansoddiad o'r cymalau sy'n effeithio ar Loegr, Cymru, a Chymru & Lloegr. Gweler Atodiad D.